COMISIYNWYR
Etusennau
ar gyfer Lloegr a Chymru

Cynnwys Defnyddwyr

Buddiolwyr sy'n dod yn ymddiriedolwyr

CC 24

Mawrth 2000

Cynnwys Defnyddwyr:
Buddiolwyr sy'n dod yn ymddiriedolwyr

I bwy mae'r arweiniad hwn?	1
Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir	1
Cynnwys defnyddwyr	3
Ein safle ni ar gynnwys defnyddwyr	4
Rheolaeth effeithiol	5
Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr	6
Gwrthdaro buddiannau	7
Penodi ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr	13
Cyrff ymddiriedolwyr	15
Gofynion cyfreithiol ar gymhwyster i fod yn ymddiriedolwr	16
Ffynonellau arweiniad pellach	18

I bwy mae'r arweiniad hwn?

1. Mae'r arweiniad hwn i elusennau sy'n darparu gwasanaethau i unigolion ac sy'n cynnwys, neu'n dymuno cynnwys, yr unigolion hynny wrth ddatblygu'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau sy'n cael eu cyflenwi iddynt. Ond gall yr egwyddorion cyffredinol a amlinellir fod yn ddefnyddiol i unrhyw elusen sy'n ceisio mewnbwn gan eu defnyddwyr.

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir

2. Yn yr arweiniad hwn:

Ystyr **ymddiriedolwyr** yw **ymddiriedolwyr elusennau**. Ymddiriedolwyr elusennau yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiad cyffredinol yr elusen. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, ymddiriedolwyr rheoli, aelodau pwyllgor, llywodraethwyr, neu'n gyfarwyddwyr, neu gellir cyfeirio atynt trwy ddefnyddio rhyw deitl arall.

Dylid ystyried **perthynas** yn yr ystyr mwyaf eang sef unrhyw un sydd â chysylltiad agos â'r defnyddiwr ac a allai gael ei ystyried yn rhywun sydd â diddordeb clir ac uniongyrchol yng ngweinyddiad yr elusen. Gallai hyn gynnwys perthnasau trwy waed, perthnasau trwy briodas, partner o'r un rhyw neu o ryw wahanol, llysblant neu blant y tu allan i briodas.

Mae **defnyddwyr** yn yr arweiniad hwn yn cynnwys unrhyw un sy'n defnyddio neu'n cael budd o wasanaethau neu gyfleusterau'r elusen, os yw'n cael eu darparu gan yr elusen yn wirfoddol neu fel gwasanaeth dan gontract, efallai ar ran corff fel awdurdod lleol. Bydd 'defnyddiwr' yn golygu pethau gwahanol i elusennau gwahanol, a bydd nifer o bobl sy'n gysylltiedig â'r person sy'n derbyn y gwasanaeth yn uniongyrchol hefyd yn cael budd yn aml o'r gwasanaeth. Er enghraifft, mewn elusen sy'n gwneud gwaith ymchwil ar gyflwr meddygol arbennig, gallai'r 'defnyddiwr' fod yn berson sy'n dioddef o'r cyflwr hwnnw, ei ofalwyr, gweithwyr proffesiynol meddygol ac addysgol sy'n cynnig cyngor ar y cyflwr ac ati. Hyd yn oed os nad yw cefnogaeth yn cael ei darparu'n uniongyrchol i berthnasau, gwarcheidwaid neu ofalwyr, efallai fod ganddynt ddiddordeb clir ac uniongyrchol yng ngweinyddiad yr elusen oherwydd eu perthynas â'r defnyddwyr neu eu cyfrifoldeb ariannol neu gyfreithiol dros y defnyddwyr hynny.

Defnyddir **rhaid** i gyfeirio at y camau y mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr, neu eu hasiantau neu eu gweithwyr, eu cymryd yn ôl y gyfraith.

Defnyddir **argymell** neu **gynghori** os ydym yn awgrymu camau i'r ymddiriedolwyr sydd yn arfer dda yn ein barn ni ond nid ydynt yn ofyniad cyfreithiol.

3. Mae elusennau'n bodoli i wasanaethu eu defnyddwyr a'u defnyddwyr posib yn y dyfodol ac i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion yn y ffordd fwyaf cyflawn posib. Bydd elusennau sy'n cael eu gweinyddu'n dda yn ceisio gwella eu gwasanaethau yn barhaus mewn ffyrdd sy'n cael effaith uniongyrchol, bositif ar fywydau defnyddwyr, gan edrych ar amrywiaeth o syniadau a dulliau i gyflawni hyn.

4. Mae nifer o elusennau yn cynnwys defnyddwyr mewn ymdrech i wella gwasanaethau. Mae'r term 'cynnwys defnyddwyr' yn disgrifio'r ystod gyfan o ffyrdd ymarferol y gellir ceisio barn a blaenoriaethau defnyddwyr a sicrhau eu bod yn dylanwadu ar wasanaethau'r elusen.

5. Gallai cynnwys defnyddwyr olygu:

- trafodaethau anffurfiol gyda defnyddwyr am wasanaethau'r elusen;
- grwpiau ymgynghorol defnyddwyr a holiaduron cyson ar y gwasanaethau a ddarperir;
- mewnbwn ffurfiol neu anffurfiol gan ddefnyddwyr trwy gyfrwng is-bwyllgorau neu grwpiau defnyddwyr;
- cynnwys defnyddwyr blaenorol neu ddefnyddwyr posib ar y corff ymddiriedolwyr neu gynnwys gwarcheidwaid/gofalwyr defnyddwyr;
- corff ymddiriedolwyr sy'n cynnwys defnyddwyr a'r rheiny nad ydynt yn ddefnyddwyr;
- corff ymddiriedolwyr sy'n cynnwys defnyddwyr yn gyfan gwbl.

6. Nid oes unrhyw ffurf 'orau' o gynnwys defnyddwyr. Mae'n fater o benderfynu beth sy'n fwyaf addas i elusen arbennig a'i defnyddwyr ar unrhyw adeg. Gall nifer fawr o ffactorau ddylanwadu ar addasrwydd ffurfiau gwahanol o gynnwys defnyddwyr, er enghraifft:

- hunaniaeth, dymuniadau a sgiliau'r defnyddwyr;
- y math o wasanaeth y mae'r elusen yn ei ddarparu;
- cyfnod datblygu'r elusen;
- ethos ac ymagwedd yr elusen tuag at newid trefniadol;
- gofynion noddwyr, aelodau a chefnogwyr; neu
- arferion elusennau tebyg.

Mae nifer o elusennau'n mabwysiadu sawl ffurf o gynnwys defnyddwyr ar yr un pryd, neu'n symud o un i'r llall dros gyfnod.

Ein safle ni ar gynnwys defnyddwyr

7. Croesawn gynnwys defnyddwyr fel ffordd o helpu elusen i gyflawni ei nod yn fwy effeithiol. Mae sawl ffurf o gynnwys defnyddwyr yn syml ac nid ydynt yn creu unrhyw broblemau. Mae rhestr o rai o'r canllawiau niferus ar sut i gynnwys defnyddwyr i'w gweld ar ddiwedd yr arweiniad hwn.

8. Mae'r arweiniad hwn yn edrych ar ymddiriedolaeth sy'n cynnwys defnyddwyr yn arbennig, gan fod y math hwn o gynnwys defnyddwyr yn codi materion cymhleth sydd angen eu trafod. Mae angen cyflwyno ymddiriedolaeth sy'n cynnwys defnyddwyr yn ofalus er mwyn osgoi unrhyw broblemau gyda

gwrthdaro buddiannau y gallai rhywun sy'n ddefnyddiwr ac yn ymddiriedolwr eu hwynebu. Ein nod yw helpu elusennau i ragweld ac osgoi'r problemau a all godi.

9. Mae'r arweiniad hwn yn awgrymu ffyrdd o sicrhau bod ymddiriedolaeth sy'n cynnwys defnyddwyr:

- yn rheoli'r elusen a'i hadnoddau yn effeithiol;
- yn adnabod gwrthdaro buddiannau a ffyrdd o leihau ei effaith;
- yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gymhwyster i fod yn ymddiriedolwr.

Rheolaeth effeithiol

10. Mae cynnwys defnyddwyr fel ymddiriedolwyr yn benderfyniad y dylai pob elusen ei ystyried ar sail ei hamgylchiadau a'i hanghenion ei hun. Bydd ymddiriedolaeth sy'n cynnwys defnyddwyr yn briodol ar gyfer rhai elusennau ond nid i rai eraill. Yn bennaf oll, dylai pob elusen ystyried a fyddai ymddiriedolaeth sy'n cynnwys defnyddwyr yn gwella rheolaeth effeithiol yr elusen ac yn cael effaith bositif ar gyflwyno'i gwasanaethau.

11. Gall defnyddwyr gyfrannu eu profiad uniongyrchol tuag at ddatblygu gwasanaethau a helpu ymddiriedolwyr eraill i ddatblygu mwy o wybodaeth am bersbectif y defnyddiwr. Gall fod yn ymddiriedolwr adfer ymdeimlad o berchnogaeth ac ymrymuso ymhlith defnyddwyr. Gall helpu lleihau anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Gall gynyddu nifer y defnyddwyr eraill sy'n cefnogi'r elusen ac arwain at gymunedau mwy cydlynol. Gall ehangu cysylltiadau a dylanwad elusen ac weithiau gall gynnig ffynonellau cyllid nad oeddent ar gael o'r blaen.

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

12. Mae gan bob ymddiriedolwr, os ydynt yn ddefnyddwyr neu beidio, gyfrifoldebau yn ôl y gyfraith. Cewch wybodaeth bellach yn ein harweiniad **Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Elusennau** (**CC3**). I grynhoi, mae gan ymddiriedolwyr gyfrifoldeb llwyr dros eu helusen ac mae'n rhaid iddynt:

- weithredu gyda'r ymddiriedolwyr eraill ac mewn person a pheidio â dirprwyo rheolaeth yr elusen i eraill;
- gweithredu yn unol â dogfen lywodraethol yr elusen;
- gweithredu er lles yr elusen yn unig heb ystyried eu buddiannau preifat eu hunain;
- rheoli materion yr elusen yn ddoeth ac yn y tymor hir yn ogystal â'r tymor byr;
- peidio â chael unrhyw fudd neu elw preifat o'r elusen heb awdurdod cyfreithiol penodol.

13. Mae'n bwysig bod **unrhyw un** sy'n cael ei benodi fel ymddiriedolwr yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau a'i atebolrwydd. Mae'n annheg i roi amrywiaeth o ddyletswyddau i rywun nad yw'n eu deall yn iawn, neu nid yw am eu cyflawni.

14. Gall ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr deimlo weithiau eu bod yn cael eu penodi dim ond i roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â chyflwyno'r gwasanaeth, neu i siarad ar ran defnyddwyr. Nid dyma'r achos. Mae statws cyfartal ganddynt â'r holl ymddiriedolwyr eraill a dylent weld eu rôl nid yn unig yn nhermau cyfrannu at welliannau mewn gwasanaethau. Ymddiriedolwyr effeithiol yw'r rheiny sy'n cyfrannu at gynnal safonau uchel o lywodraeth a rheolaeth yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth. Nid oes y fath beth ag ymddiriedolwr gydag un diddordeb.

15. Yn yr un modd ag ymddiriedolwyr eraill, mae rhaglenni sefydlu ar gyfer ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr ar ddechrau eu cyfnod fel ymddiriedolwr a hyfforddiant a chefnogaeth barhaus ar ôl hynny yn bwysig iawn. Bydd hyfforddiant effeithiol i bob ymddiriedolwr yn helpu atgyfnerthu cryfderau rhywun, lleihau gwendidau a gwneud iawn am unrhyw ddiffyg gwybodaeth a phrofiad.

16. Mae'n bwysig i elusennau sicrhau bod yr holl drefniadau ar gyfer cyfarfodydd yn gyfleus i bob ymddiriedolwr o ran mynediad corfforol ac amseriad a bod systemau cefnogi ar gael i unrhyw ymddiriedolwr sydd eu hangen.

Gwrthdaro buddiannau

17. Fel y nodwyd uchod, rhaid i bob ymddiriedolwr weithredu er lles gorau'r elusen yn unig ac nid er eu budd neu eu helw preifat eu hunain. Gall fod sefyllfaoedd lle mae budd yr ymddiriedolwr ei hun a budd yr elusen yn codi ar yr un pryd neu'n ymddangos ei fod yn gwrthdaro. Er enghraifft, mewn elusen sy'n rhoi grantiau at ddibenion addysgol, gall plentyn un o'r ymddiriedolwyr wneud cais am gefnogaeth. Neu gall ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr mewn elusen sy'n helpu pobl gyda pharlys yr ymennydd wneud cais am gymorth o gynllun byw'n annibynnol a weinyddir gan yr elusen honno. Mae'n amlwg y byddai'r ymddiriedolwyr hyn mewn sefyllfa lle y gallent gael budd o'r grant neu'r cymorth uniongyrchol. Nid yw'n fater o onestrwydd yr ymddiriedolwr dan sylw, ond yn hytrach rheoli unrhyw bosibilrwydd o rywun yn elwa yn ei swydd fel ymddiriedolwr.

18. Mae trafodion yr elusen sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro buddiannau yn ddilys oni bai a hyd nes eu bod yn cael eu herio gennym ni neu gan rywun sydd â diddordeb yn yr elusen. Mae'n amlwg nad yw unrhyw drafodion y mae er lles yr elusen i'w cynnal **yn**

mynd i gael eu herio, er eu bod yn cael eu heffeithio gan wrthdaro buddiannau. Ond os yw trafodion gwrthdaro buddiannau yn cael eu herio, mae mewn perygl o fod yn annilys oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi (gweler y paragraff nesaf). Gall fod canlyniadau cyfreithiol i hyn (er enghraifft, bydd rhaid i grant, os caiff ei roi mewn modd annilys, gael ei ad-dalu i'r elusen, gweler hefyd paragraff 24). Mae er lles yr ymddiriedolwyr eu hunain a delwedd gyhoeddus yr elusen i ddefnyddio dulliau clir o ddangos bod unrhyw wrthdaro posib wedi cael ei osgoi.

19. Fel egwyddor gyffredinol, ni all ymddiriedolwyr gael unrhyw fudd (sy'n cynnwys gwasanaethau, cyfleusterau, cronfeydd neu fuddiannau eraill o werth mesuradwy) o'u helusen oni bai fod awdurdod penodol ganddynt i wneud hynny. Bydd yr awdurdod cyfreithiol hwn yn dod naill ai:

- o gymal yn nogfen lywodraethol yr elusen; neu

- os nad oes cymal digonol yn y ddogfen lywodraethol, oddi wrthym ni neu'r Llys.

20. Nid yw hyn yn cynnwys ad-dalu treuliau parod rhesymol i'r ymddiriedolwyr. Gall unrhyw gostau sydd eu hangen er mwyn galluogi ymddiriedolwr i gyflawni ei ddyletswyddau fel ymddiriedolwr gael eu dosbarthu fel treuliau a gall yr ymddiriedolwr eu hadennill neu gall yr elusen dalu amdanynt yn uniongyrchol. Gall hyn gynnwys costau teithio a'r gost o ddarparu gofal i ddibynnydd tra'n mynychu cyfarfod ymddiriedolwyr, neu wrth ymgymryd â busnes yr ymddiriedolwyr. Gall hefyd gynnwys cost darparu dogfennau mewn Braille neu dâp sain i ymddiriedolwr sy'n ddall, neu ddarparu cludiant, offer neu gyfleusterau arbennig i unrhyw ymddiriedolwr anabl.

21. Mae'r egwyddor na all ymddiriedolwr gael unrhyw fudd yn gweithio ar y sail os na all ymddiriedolwyr dderbyn unrhyw fuddiannau o'u helusen, ni fydd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau pan fyddant yn dyrannu adnoddau'r elusen. Mae'n rhan o reol ehangach na ddylai ymddiriedolwyr roi eu hunain mewn sefyllfa lle gallai eu dyletswyddau fel ymddiriedolwyr wrthdaro â'u buddiannau personol. Mae ymddiriedolwyr sydd hefyd yn ddefnyddwyr gwasanaethau'r elusen yn y sefyllfa bosib o gael gwrthdaro buddiannau oherwydd eu rôl ddeuol, a dylent fod yn ymwybodol o'r angen i adnabod unrhyw wrthdaro.

22. Mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr, os yw'n ddefnyddiwr neu beidio, fod yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau posib a lleihau ei effaith. Agwedd allweddol o leihau effaith gwrthdaro buddiannau yw bod yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â sefyllfaoedd o'r fath pryd bynnag y byddant yn codi. Argymhellwn fod pob ymddiriedolwr yn rhoi gwybod i'w elusen am unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib y maent yn ymwybodol ohono. Ond, hyd yn oed os yw ymddiriedolwr yn rhoi gwybod i'w elusen am wrthdaro posib, os nad oes unrhyw awdurdod pendant sy'n caniatáu i'r ymddiriedolwr gael budd, ni fydd hwn o anghenraid yn dileu'r perygl y bydd trafodiad sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei fuddiannau yn annilys. Ond os yw ymddiriedolwr yn agored am y ffaith bod ganddo ddiddordeb personol mewn trafodiad arbennig yr elusen, mae'n llai tebygol y bydd y trafodiad yn cael ei ystyried yn rhywbeth nad yw er lles yr elusen, ac felly, mae'n llai tebygol o gael ei herio.

23. Os yw gwrthdaro buddiannau yn cael ei anwybyddu gall niweidio'r elusen yn y pen draw. Gall trafodion, gan gynnwys darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr, gael eu herio os

ydynt wedi cael eu heffeithio gan wrthdaro buddiannau. Ymhellach na hyn, gall gwrthdaro buddiannau olygu bod adnoddau'n cael eu camddefnyddio, bod disgwyliadau rhoddwyr a chyfranwyr heb eu bodloni, bod yr elusen yn gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr eraill ac, yn y pen draw, bod elusen yn cael ei gweinyddu ar sail hunan-les yn groes i bob egwyddor yr elusen.

24. Os yw elusen yn cael ei gweinyddu ar sail hunan-les, byddwn yn defnyddio ein pwerau i unioni'r sefyllfa, gan sicrhau bod gweithgareddau'r sefydliad yn parhau'n elusennol yn gyfan gwbl. Bydd ymddiriedolwr sy'n ymwybodol ei fod yn cael budd o'r elusen heb yr awdurdod priodol yn cyflawni tor-ymddiriedaeth a gellir gofyn iddo ad-dalu i'r elusen unrhyw fudd a gafwyd.

25. Efallai y bydd elusennau eisiau sefydlu cofrestr buddiannau i'w hymddiriedolwyr. Mae unigolion yn gallu cofnodi unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosib yn agored. Argymhellwn fod rhestr o'r fath yn cael ei diweddaru yn gyson.

26. Gallai elusennau hefyd ystyried sefydlu polisi ar sut i ddelio ag unrhyw wrthdaro sy'n debygol o godi o ganlyniad i'r gwaith a wnânt. Gall hyn gynnwys arweiniad ar bryd y mae angen i ymddiriedolwr dynnu'n ôl o rai penderfyniadau. Hyd yn oed os **yw** ymddiriedolwr yn tynnu'n ôl o benderfyniad sy'n effeithio ar ei fuddiannau yn uniongyrchol, ni fydd hyn o anghenraid yn dileu'r risg y bydd trafodiad sy'n deillio o'r penderfyniad yn annilys. Er mwyn sicrhau hyn, rhaid bod awdurdod penodol sy'n caniatáu i ymddiriedolwr gael budd, os yw'n tynnu'n ôl o'r penderfyniad. Ond os **yw** ymddiriedolwr yn tynnu'n ôl o benderfyniad o'r fath, mae'n llai tebygol y bydd y trafodiad sy'n deillio ohono yn

cael ei ystyried yn rhywbeth nad yw er lles yr elusen, ac felly, mae'n llai tebygol o gael ei herio.

27. Mae trefnu i ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr beidio â chymryd unrhyw ran mewn penderfyniadau sy'n **effeithio'n uniongyrchol** ar eu buddiannau personol eu hunain neu fuddiannau eu perthnasau yn ffordd syml o leihau'r risg y bydd trafodiad yn cael ei herio ar sail gwrthdaro buddiannau. Wrth gynghori rhywun i osgoi gwrthdaro buddiannau posib, neu i dynnu'n ôl o unrhyw benderfyniad lle mae gan yr unigolyn hwnnw fudd personol, nid ydym yn ffurfio barn am onestrwydd yr unigolyn hwnnw.

28. Yn ein barn ni, mae penderfyniad yn **effeithio'n uniongyrchol** ar ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr neu berthynas os yw'n golygu bod yr ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr neu'r perthynas yn derbyn rhywbeth (gwasanaeth, cyfleuster, cronfeydd, neu ryw fudd arall) a fydd yn bersonol i'r ymddiriedolwr hwnnw ac ni chaiff ei rannu gyda buddiolwyr eraill.

29. Er enghraifft, mewn elusen sy'n darparu offer meddygol i bobl gyda salwch arbennig, gallai ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr wneud cais i gael darn o offer i leddfu ei symptomau. Byddai'r darn o offer yn cael ei ddefnyddio gan yr ymddiriedolwr hwnnw yn unig. Neu mewn elusen sy'n helpu pobl sydd mewn angen ariannol, gall ymddiriedolwr wneud cais am grant i dalu bil hanfodol, fel gwres neu ddŵr, oherwydd ni all fforddio talu cost y bil hwnnw.

30. Yn y sefyllfaoedd hyn, cynghorwn yn gryf fod yr ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr neu'r perthynas yn datgan budd cyn cychwyn ar drafodaethau ac i beidio â chymryd unrhyw ran mewn penderfyniad o'r fath. Mewn rhai achosion, efallai fod yr ymddiriedolwyr eraill

am wahodd yr ymddiriedolwr dan sylw i aros am ran o'r drafodaeth i ateb cwestiynau ar y mater. Edrychwch ar ddogfen lywodraethol yr elusen am unrhyw ddarpariaethau penodol ar ddelio â gwrthdaro buddiannau.

31. Yn ein barn ni, mae penderfyniad yn cael **effaith anuniongyrchol** ar ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr neu berthynas os:

- yw'n golygu bod yr ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr neu'r perthynas yn derbyn rhywbeth a fydd hefyd ar gael yn fwy cyffredinol i ddefnyddwyr eraill y tu allan i'r corff ymddiriedolwyr; neu

- os yw'n benderfyniad polisi neu'n arfer cyffredinol sy'n effeithio ar y gwasanaeth y mae'r ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr neu'r perthynas, ynghyd â defnyddwyr eraill, yn cymryd rhan ynddo.

32. Er enghraifft, mewn elusen sy'n darparu offer meddygol i bobl sy'n dioddef salwch arbennig, efallai fod yr ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r mathau gwahanol o offer y bydd yr elusen yn eu darparu. Mae'n anochel y bydd gan ymddiriedolwr sy'n ddefnyddiwr fudd yng nghategorïau cyffredinol yr offer sy'n cael ei ddarparu, ond bydd yr offer ar gael i bob defnyddiwr posib. Gall ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr a pherthnasau gymryd rhan mewn penderfyniadau o'r fath ond dylent ddatgan unrhyw fudd personol o'r dechrau.

33. Ni fydd buddiannau sydd ar gael yn gyffredinol i bob defnyddiwr neu sy'n amherthnasol neu heb fod o werth mesuradwy, yn achosi problem fel arfer. Er enghraifft, mewn elusen gydag aelodaeth agored, gallai'r holl ymddiriedolwyr gael eu tynnu o'r aelodaeth honno a derbyn yr un buddiannau ag unrhyw

aelod arall. Ni all unrhyw sefydliad gydag aelodaeth gyfyngedig neu gaeedig fod yn elusen os yw ei fuddiannau wedi'u cyfeirio at ei aelodau.

34. Yn yr un modd, bydd rhai buddiannau, fel darparu taflen wybodaeth ar bwnc yn amherthnasol ac nid yw'n debygol y bydd angen i'r ymddiriedolwr weithredu.

35. Cynghorwn fod ymddiriedolwyr yn defnyddio eu barn ar yr hyn y gellir ei ystyried yn fudd cyffredinol neu amherthnasol. Os oes amheuaeth ynglŷn â sut i ddelio ag unrhyw rai o'r materion hyn, cysylltwch â ni am gyngor.

36. Rhaid i unrhyw drafodion, gan gynnwys trafodion sydd wedi'u hawdurdodi, sy'n rhoi budd sylweddol i ymddiriedolwr, neu rywun sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwr, gael eu datgelu yn y nodiadau i gyfrifon yr elusen, os oes rhaid i'r cyfrifon hynny roi barn wir a theg. Yn gyffredinol, byddai hyn yn gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon ar sail croniadau (gweler ein harweiniad **Cyfrifon ac Adroddiaddau Elusennau: Yr hanfodion** (**CC15**)). Ond argymhellwn yn gryf fod pob elusen yn datgelu'r buddiannau a dderbynnir.

Penodi ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr

37. Gall dogfen lywodraethol elusen osod rheolau ynglŷn â phwy all fod yn ymddiriedolwr. Gallwn gynghori elusen a oes ganddi awdurdod cyfreithiol digonol i benodi ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr neu beidio. Os oes angen, byddwn yn darparu'r awdurdod hwnnw i'r elusen. Byddai'r awdurdod hwn yn amodol ar wahardd ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr rhag gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fuddiannau eu perthnasau. Yna ni fydd unrhyw risg cyfreithiol i unrhyw drafodiad sy'n deillio o benderfyniadau o'r fath, cyhyd â bod yr ymddiriedolwr(wyr) yn cydymffurfio â'r amod.

38. Os oes gan yr elusen y pŵer i ddiwygio neu newid ei dogfen lywodraethol, gall fod modd defnyddio'r pŵer hwn i ddileu gwaharddiad ar benodi ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr ond argymhellwn fod ymddiriedolwyr yn ceisio ein cyngor ni cyn gwneud hynny. Gall penderfyniad i ddefnyddio pŵer diwygio yn y ffordd hon gael ei herio ei hun oherwydd ei fod yn rhoi budd i'r ymddiriedolwyr.

39. Yn achos elusen newydd, bydd gwaharddiad ar benodi ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr, wrth gwrs, yn cael ei gynnwys yn y ddogfen lywodraethol dim ond os yw'r rheiny sy'n sefydlu'r elusen yn meddwl ei fod yn briodol. Os disgwylir i'r elusen gael ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr, cynghorwn ei bod yn creu amod bod ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr yn cael eu gwahardd rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fuddiannau personol eu perthnasau. Os yw hyn yn cael ei wneud, ni fydd unrhyw risg cyfreithiol i unrhyw drafodiad sy'n deillio o benderfyniad o'r fath, cyhyd â bod yr ymddiriedolwr(wyr), wrth gwrs, yn cydymffurfio â'r amod.

40. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i rai elusennau gael defnyddwyr fel ymddiriedolwyr. Yn gyffredinol bydd gofyniad cyfreithiol i gael ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr yn dod naill ai:

- O ddogfen lywodraethol yr elusen

  Mae'n ofynnol, er enghraifft, i nifer o elusennau neuadd bentref gael pwyllgor rheoli (sy'n ymddiriedolwyr yr elusen) sy'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig o'r grwpiau lleol sy'n defnyddio'r neuadd; neu

- O'r gyfraith statud.

  Er enghraifft, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i rai ysgolion gael nifer o rieni-lywodraethwyr.

41. Mae rhai noddwyr yn gosod amod bod rhaid i elusen gael ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr cyn y gallant roi grant i'r elusen neu lunio contract â'r elusen. Wrth gwrs, gall yr elusen gytuno â'r amod hwn dim ond os nad yw ei dogfen lywodraethol yn gwahardd penodi ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr, ac mae gan yr elusen y nifer angenrheidiol o ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr.

Cyrff ymddiriedolwyr

42. Bydd y cyrff ymddiriedolwyr mwyaf effeithiol yn cynnwys amrywiaeth o bobl gydag amrywiaeth o sgiliau, diddordebau, safbwyntiau a phersbectif. Mae'n bwysig nad yw unrhyw grŵp unigol yn dominyddu corff ymddiriedolwyr neu'n dylanwadu'n ormodol.

43. Yn amodol ar unrhyw beth yn nogfen lywodraethol yr elusen, nid oes unrhyw waharddiad cyfreithiol rhag cael ymddiriedolwyr sydd i gyd yn ddefnyddwyr. Os yw pob ymddiriedolwr yn ddefnyddiwr, gall rhai elusennau ganfod y byddant yn darparu gwasanaeth llawer gwell i'w defnyddwyr eraill a'u bod yn sicrhau rheolaeth effeithiol yr elusen. Ond, fel gydag unrhyw gorff ymddiriedolwyr, rhaid gwylio rhag cael grŵp o ymddiriedolwyr gydag un agenda.

44. Efallai y bydd rhai elusennau yn canfod na ellid gweithredu os oes unrhyw ddefnyddwyr ar y corff ymddiriedolwyr. Er enghraifft, elusennau lle mae'r defnyddwyr yn rhai dros dro, neu'n ceisio cyngor a chefnogaeth unigryw neu gyfrinachol.

45. Ond, fel canllaw, byddem yn awgrymu os yw cyfran yr ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr yn cyfrif am un rhan o dair neu lai o'r corff ymddiriedolwyr, mae'n annhebyg y bydd unrhyw broblemau gydag unrhyw un grŵp o ymddiriedolwyr gydag un diddordeb neu gymhelliad yn cael ei gyhuddo o reoli cyfeiriad yr elusen.

46. Fel yr esboniwyd eisoes, cyfrifoldeb pob elusen yw penderfynu ar y gyfran fwyaf priodol ac effeithiol o ymddiriedolwyr sy'n ddefnyddwyr.

Gofynion cyfreithiol ar gymhwyster i fod yn ymddiriedolwr

47. Rhaid i unrhyw un, boed yn ddefnyddiwr neu beidio, sy'n ystyried bod yn ymddiriedolwr, sicrhau ymlaen llaw nad oes unrhyw waharddiad cyfreithiol i'w benodi fel ymddiriedolwr. Os yw person yn canfod nad ydynt yn gymwys i weithredu fel ymddiriedolwr, gallant wneud cyfraniad positif o hyd i'r elusen trwy gymryd rhan mewn ffyrdd mwy cyffredinol, fel bod yn aelod o grwpiau ymgynghorol.

48. Y tri phrif faes cymhwyster i'w hystyried yw:

- Oedran

  Ni all rhywun dan 18 oed fod yn ymddiriedolwr ymddiriedolaeth elusennol neu sefydliad anghorfforedig elusennol. Nid yw ymgais i benodi rhywun dan 18 oed fel ymddiriedolwr yn ddilys yn ôl y gyfraith. Ond nid oes unrhyw derfyn oedran lleiaf ar gyfer cyfarwyddwyr cwmnïau (gan gynnwys rhai elusennol). Ond mae'n rhaid i rywun sy'n cael ei benodi fel cyfarwyddwr cwmni fod yn ddigon hen i ddeall dyletswyddau swydd cyfarwyddwr.

- Pobl na all reoli eu materion eu hunain

  Fel arfer bydd penderfynu nad oes gan rywun y gallu i fod yn ymddiriedolwr yn deillio o gasgliad mwy cyffredinol nad oes gan yr unigolyn hwnnw y gallu neu'r ddealltwriaeth i reoli ei faterion ei hun ac felly, ni all reoli materion yr elusen.

- Anghymhwyso

  Mae nifer o seiliau penodol ar gyfer anghymhwyso - sef, gwahardd - rhywun rhag bod yn ymddiriedolwr elusen. Mae'r rhain yn cynnwys methdaliad (nas rhyddhawyd) a chael collfarn (heb ei ddarfod) am drosedd sy'n cynnwys twyll neu anonestrwydd. Mae'r rhestr lawn o'r seiliau ar gyfer anghymhwyso yn adran 72 Deddf Elusennau 1993 ac yn ein harweiniad **Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Elusennau** (**CC3**). Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 hefyd yn gwahardd rhai unigolion rhag bod yn ymddiriedolwr elusennau plant. Unwaith eto fe welwch fanylion llawn yn ein harweiniad **CC3**.

49. Gallwn roi mwy o gyngor i elusennau ar y materion hyn a materion cyfreithiol eraill sy'n ymwneud â chymhwyster i fod yn ymddiriedolwr.

Ffynonellau arweiniad pellach

50. Mae nifer o sefydliadau sy'n cynnig arweiniad neu gyngor ar gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a rheoli a delio â gwrthdaro buddiannau. Rhestrir rhai o'r rhain isod.

- Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol (NCVO)
  Regents Wharf
  8 All Saints Street
  Llundain N1 9RL
  Ffôn: 020 7713 6161
  Desg gymorth: di-dâl 0800 2 798 798
  Minicom: 0800 01 88 111
  E-bost: helpdesk@askncvo.org.uk
  Rhyngrwyd: www.ncvo-vol.org.uk

Mae NCVO yn darparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth a chyhoeddiadau i sefydliadau gwirfoddol yn Lloegr.

Mae NCVO wedi cynhyrchu "**Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer Byrddau Ymddiriedolwyr y Sector Gwirfoddol**" sy'n mabwysiadu 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Pwyllgor Nolan. Mae'n cynnwys canllawiau ar sut i osgoi gwrthdaro buddiannau ynghyd â Datganiad Ymddiriedolwyr sy'n gymwys i unrhyw elusen neu sefydliad gwirfoddol.

Mae ar gael yn rhad ac am ddim trwy anfon amlen wedi'i chyfeirio â stamp wedi'i marcio 'Cod Ymddygiad Ymddiriedolwyr' i Wasanaeth Cynghori Ymddiriedolwyr, yn y cyfeiriad a restrir uchod neu drwy ffonio rhif y Ddesg Gymorth.

- Association of Chief Executives of Voluntary Organisations (acevo)
  1 New Oxford Street
  London WC1A 1NU
  Ffôn: 0845 345 8481
  Ffacs: 0845 345 8482
  E-bost: info@acevo.org.uk
  Rhyngrwyd: www.acevo.org.uk

acevo yw'r unig sefydliad proffesiynol ar gyfer prif weithredwyr sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.

Mae acevo wedi cynhyrchu canllawiau ar gynnwys defnyddwyr yng ngweinyddiad sefydliadau gwirfoddol, "**Paratoi ar gyfer y dyfodol: Cynnwys defnyddwyr yng ngweinyddiad sefydliadau gwirfoddol**", pris £10.00. Gellir cael copïau trwy'r e-bost, ffôn neu trwy ysgrifennu at acevo. Cysylltwch â'r Swyddog Cyhoeddiadau.

Ein nod yw gwneud ein cyhoeddiadau mor ddefnyddiol a darllenadwy ag y bo modd. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglyn â gwella'r llyfryn hwn, ysgrifennwch at y Rheolwr Argraffu a Chyhoeddi yn ein Swyddfa yn Taunton.

Rhagor o Wybodaeth

Efallai y bydd o ddefnydd i chi droi at y cyhoeddiadau canlynol gan y Comisiwn Elusennau:

CC3 Yn Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod

CC11 Talu Ymddiriedolwyr Elusennau

CC15 Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau: Yr hanfodion

CC21 Cofrestru fel Elusen

CC35 Prynu Tir

CC48 Elusennau a Chyfarfodydd

CC60 Nodweddion Elusen Effeithiol

All of our publications are available in English. For information on availability please call Charity Commission Direct on 0845 300 0218.

Am restr gyflawn o'n holl gyhoeddiadau a casetiau sain, gofynnwch am:

CC1 Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

I gael copïau o unrhyw un o'r cyhoeddiadau uchod, gallwch naill ai:

- edrych arnynt a'u hargraffu o'n gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**;
- archebu yn ystod oriau agor - Llun - Gwener 08:00 - 20:00 a 09:00 - 13:00 ddydd Sadwrn trwy ffonio ni ar 0845 300 0218; neu
- ysgrifennwch i **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, Blwch SP 1227, Lerpwl, L69 3UG**.

© Hawlfraint y Goron 2007. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn fanwl gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael hefyd ar wefan yr adran: www.charitycommission.gov.uk

SEC-G5002 V6 9/05